



SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	Aelod Cyswllt Trosglwyddo Gwybodaeth Gwerthiant a Marchnata (HELIX)
Adran:	Canolfan Diwydiant Bwyd
Graddfa:	3 B
Cyflog:	£22,417 y flwyddyn
Oriau gwaith:	Swyddi gwag llawn amser a rhan amser
Deiliadaeth: :	Contract Tymor Penodol 1 flwyddyn
Yn atebol i'r:	Goruchwylydd Academaidd Priodol a'r Goruchwylydd Diwydiannol

Crynodeb o'r Rôl:

Mae gan Ganolfan Diwydiant Bwyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar y cyd ag Arloesi Bwyd Cymru gyfres o swyddi gwag tymor penodol llawn amser a rhan amser i Aelodau Cyswllt Cyfnewid Gwybodaeth weithio o fewn cwmnïau Mentrau Bach i Ganolig (BBaCh) yn y sector gweithgynhyrchu bwyd. Bydd yr Aelod Cyswllt yn gweithio gyda Goruchwylwyr Diwydiannol mewn amrediad o feysydd o fewn y sector hwn o economi Cymru.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu paru â sefydliad partner priodol ar sail y cyfuniad gorau o sgiliau ar gyfer y prosiectau a gymeradwywyd ac yn amodol ar gymeradwyaeth ail gyfweliad gyda'r Goruchwylydd Diwydiannol perthnasol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Dadansoddi arferion gwerthiant a marchnata diwydiannol sydd eisoes ar waith o fewn gweithgaredd y partner diwydiannol a gweithredu ymyriadau a fydd yn ceisio gwella'r swyddogaethau hyn.

Adrodd yn ôl ar y camau sydd angen eu gweithredu i ymgorffori gwelliannau o fewn adeiladau'r partneriaid diwydiannol yn unol â'r arferion gorau sydd i'w cael ym maes gwerthiant a marchnata.

Rhoi systemau gwerthiant a marchnata ar waith lle bo angen drwy amrywiaeth o ddulliau, gan ddefnyddio dull strwythuredig o fynd ati ac o fewn amserlen y cytunwyd arni.

Datblygu a chyflenwi rhaglen i ymgorffori egwyddorion y methodolegau newydd i'w mabwysiadu.

Cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penodol

Bydd i bob prosiect ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol, cymesur â graddfa a galluoedd a bennir gan y Goruchwylydd Diwydiannol. Ni fydd unrhyw wrthdaro rhwng y cyfryw ddyletswyddau a chyfrifoldebau â'r prif ddyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i weithredu'ch contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai bydd angen i bethau newid o dro i dro. Bydd unrhyw newid yn digwydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Nid rhestr gynhwysfawr o dasgau a berfformiwyd yw Crynodeb Dyletswyddau a Chyfrifoldebau . Mae tasgau technegol perthnasol eraill yn debygol o gael eu perfformio yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Sylweddolir y bydd gan unigolion sgiliau a gwybodaeth arbenigol perthnasol i'r swydd y penodwyd nhw iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd yr holl staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac ymddwyn yn broffesiynol, yn gwrtais a ffocysu ar y myfyrwyr bob amser. Dylai pob aelod o'r staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau yn ôl polisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar Gydraddoldeb, Cyllid, Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol a Iechyd a Diogelwch.



MANYLEB PERSON

Swydd: **Aelod Cyswilt Trosglwyddo
Gwybodaeth Gwerthiant a Marchnata
(HELIX)**

Uned/Ysgol: **Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd –
Canolfan Diwydiant Bwyd Cardiff**

*Allwedd

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweiliad
P -Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD TRWY		
		Ff*	C*	T*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	5 TGAU yn cynnwys Saesneg a Mathemateg gradd C neu uwch neu gymhwyster cyfwerth.	X		
	HNC/D neu uwch mewn pwnc gwyddonol neu fusnes perthnasol (e.e. gwyddor bwyd, microbioleg, marchnata ayb) neu gweler yr adran isod ar brofiad.	X		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	BSc (Anrh) neu uwch mewn pwnc gwyddonol neu fusnes perthnasol (e.e. gwyddor bwyd, microbioleg ayb)	X		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth benodol i'r prosiect yn berthnasol i'r themâu o fewn y Cynllun (e.e. gwerthiant, marchnata, cyfathrebu, datblygu cynnyrch newydd ayb.)		X	
Gwybodaeth (Dymunol)	Deall gofynion statudol a'u heffaith ar yr amgylchedd gwaith.		X	
Sgiliau a Galluoedd perthnasol i'r rôl (Hanfodol)	Llythrennedd cyfrifiadurol, gan gynnwys chwilio am wybodaeth, basau data a thaenlenni.		X	
Sgiliau a Galluoedd perthnasol i'r rôl (Dymunol)	Sgiliau rhyngpersonol i ymateb i ystod o weithwyr proffesiynol a phersonél gweithgynhyrchu bwyd mewn amgylchedd aml-ddiwylliannol		X	

Profiad â thâl/di-dâl (Hanfodol)	Mae profiad diwydiannol perthnasol yn hanfodol os na ddiwallwyd y meini prawf addysgol / cymwysterau yn llwyr. Gallai'r profiad fod yn benodol i sector neu brofiad o'r diwydiant bwyd neu ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â bwyd.	X		
Profiad â thâl/di-dâl (Dymunol)	Profiad gwaith yn y diwydiant bwyd .		X	
Gofynion Eraill (Hanfodol)	<p>Uchelgais a brofwyd i ddatblygu gyrfa fel rheolwr yn y diwydiant bwyd.</p> <p>Y gallu i ddatblygu perthynas waith gyda sefydliadau a phartneriaid busnes</p> <p>Yn barod i gynnal hyfforddiant/datblygiad pellach penodol i nodau ac amcanion y prosiect.</p> <p>Hunan-ysgogol, brwdfrydedd a'r gallu i weithio o'u pen a'u pastwn eu hun.</p> <p>Gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfrinachedd'</p> <p>Y gallu a'r parodrwydd i deithio i wahanol safleoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac i leoliadau eraill.</p>		X	
Gofynion Eraill (Dymunol)	Unigolyn â meddwl creadigol yn gallu roi syniadau ar waith.		X	

